# GEIRFA ALLWEDDOL

**Ailenedigaeth** - Y gred fod ysbryd/enaid person yn dod yn ôl i’r byd mewn corff arall.
**Atal-ddweud** - Problem wrth siarad sy’n gwneud i chi fethu dweud llythyren gyntaf gair, neu ei hail adrodd. Stutter; stammer.
**Ateb Terfynol** - Penderfyniad y Natsïaid i ddifa'r hil Iddewig.
**Auschwitz** - gwersyll difa yng ngwlad Pwyl.
**Canghellor** - Arweinydd llywodraeth yr Almaen.
**Datrys** - Dod o hyd i ateb i broblem; solfio. To solve.
**Deg Gorchymyn** - Y gorchmynion roddodd Duw i Moses ar fynydd Sinai.
**Derbyniad** - Gweithred o dderbyn. Acceptance. Mae’n derm sy’n cael ei ddefnyddio wrth drafod alcoholiaeth. Rhaid i’r alcoholig dderbyn ei fod yn alcoholig cyn medru dechrau delio gyda’i broblem. Acceptance.
**Diddyfnu** - Gwahanu rhywun yn raddol oddi wrth rywbeth. To wean.
**Dukkha** - Term Bwdhaeth am ddioddefaint;
**Dyslecsia** - Cyflwr sy’n gwneud hi’n anodd i berson ddarllen geiriau. Dyslexia.
**Ghettos** - rhannau o ddinasoedd neu drefi lle gorfodwyd yr Iddewon i fyw. Fel arfer roedd muriau wedi eu codi o’u hamgylch.
**Gwacter ysbrydol** - Gwacter = Rhywbeth ar goll, lle gwag. Void, emptiness. Ysbrydol = Yn perthyn i’r ysbryd, neu i enaid person. Spiritual.
**Gwadu** - Gwrthod derbyn neu gydnabod. Deny. Mae’n derm sy’n cael ei ddefnyddio wrth drafod alcoholiaeth. Bydd yr alcoholig yn gwrthod derbyn fod unrhyw beth o’i le ar ei fywyd ac yn beio pobl eraill am ei broblemau.
**Gweinidog** - Arweinydd mewn capel. Mae’n arwain addoliad, yn dysgu’r Beibl, yn gofalu am bobl. Minister.
**Hil-laddiad** - Ymgais i ddileu parhad un grŵp o bobl.
**Hollalluog** - Y gallu i wneud unrhywbeth.
**Hollgariadus** - Yn ewyllysio’r gorau i bawb, yn caru pawb.
**Holocost** - ymdrech bwriadol y Natsiaid i ddinistrio'r hil Iddewig.
**Hunangofiant** - Llyfr sy’n disgrifio hanes bywyd yr awdur. Autobiography.
**Ildiais** - Rhoi’r gorau i wrthwynebu neu wrthsefyll, plygu i rywbeth. Cease to oppose or withstand, surrender, submit.
**Ioan** - Pedwerydd llyfr y Testament Newydd, ail ran y Beibl. John.
**Job** - Llyfr rhif 18 yn y Beibl. Mae’n adrodd hanes dyn da o’r enw Job yn colli ei deulu a’i gyfoeth i gyd. Mae’n trafod y thema, 'Pam fod pobl dda yn dioddef?' Dydy Job ddim yn troi ei gefn ar Dduw, ond yn dal ati i’w drystio.
**Karma** - Yn syml gweithredoedd, gall karma da a drwg yn y bywyd blaenorol effeithio ar fywyd yn y presennol.
**Llwybr Wythblyg Urddasol** - Arweiniad ar gyfer dull o fyw o fewn crefydd Bwdhaeth.
**Myfyrio** - Ymarferion meddyliol a chorfforol ar gyfer delio gyda bywyd.
**Natsïaid** - Plaid Genedlaethol Sosialaidd Gweithwyr yr Almaen.

**Pedwar Gwirionedd Urddasol** - Dyma neges sylfaenol crefydd Bwdhaeth sy’n ymwneud â dioddefaint.
**Salm** - Cerdd neu gân o fawl i Dduw. Mae llyfr y Salmau yn y Beibl fel llyfr emynau. Psalm.
**Shoah** - mae'n golygu trychineb ac yn cyfeirio at lofruddiaeth chwe miliwn o Iddewon yn ystod yr Ail Ryfel Byd.
**Stafell Fyw** - https://www.livingroom-cardiff.com Elusen sy’n cynnig help a chwnsela i bobl sy’n ddibynnol ar alcohol, gamblo, bwyd, rhyw. Mae nifer o eglwysi Cymru yn cyfrannu’n ariannol i gynnal y gwaith.
**Tawelyddion** - Tabledi sy’n lleihau pryder neu straen. Tranquillizers.
**Triawd Anghyson** - Y ddamcaniaeth na all Duw Hollalluog, Hollgariadus a drygioni fodoli gyda'i gilydd.
**Ysfa** - Y teimlad sydd gan bobl o fod eisiau pethau mewn bywyd.